

AT Y GOLYGYDD

*Blaen y nant,
Bryndu,*

Annwyl Olygydd,

Nicholas y Glais

Roedd Nicholas y Glais yn dod i siarad yn yr Hall yn Cross Hands ac roedd y lle yn orlawn bob tro y byddai yno. Ond y tro yma gofynnodd i'r trefnwyr gadw y rhes flaen o seddi yn wag. Pan ddaeth Nicholas i siarad, edrychodd ar y dorf a dywedodd 'rhwy'n gweld llawer o heddlu ffrindiau a'r special branch yma yn y cefn fel arfer. Ond heno mae seddau wedi cael eu cadw iddyn nhw yn y tu blaen. Ni gyd yn eich adnabod ac os gwelwch yn dda dewch i cistedd o flaen y llwyfan. Mi rydwyf am i chi glywed bob gair a fyddaf yn ei ddweud rhag bo' ch i ddim yn colli yr un rhan o'r ddarlith'. Cefais y stori hon gan y diweddar Kerri Mainwaring. Hefyd dywedodd bod perthynas iddo wedi ei garcharu ar yr un pryd â Nicholas.

Yn gywir,

ALEC JAMES

.....

Annwyl Olygydd,

Yr oedd llith Bill Linnard ar yr Yorkshire Celtic Studies yn rhifyn gaeaf 2006 yn chwithig o amserol. Gwnaeth Cymdeithas Swydd Efrog dros

Astudiaethau Celtaidd waith da dros ben ac yr oedd eu Trafodion yn gylchgrawn o safon academiaidd uchel. Er bod y cylchgrawn wedi dod i ben gyda rhifyn 1953-8, nid dyna ddiwedd y gymdeithas oherwydd yr oedd yn dal yn fyw ac yn cyfarfod o leiaf hyd 1965 ac efallai am ychydig flynyddoedd wedyn. Ni sylweddolwyd y freuddwyd o sefydlu Adran Celteg ym Mhrifysgol Leeds ond fe aed gam pwysig tuag at hynny pan benodwyd Robert L. Thomson yn ddarlithydd yn yr Adran Saesneg yno yn 1953. Sais oedd ef, a anwyd yn 1924 ac a raddiodd yn Leeds gyda dosbarth cyntaf mewn Saesneg a Lladin yn 1949. Aeth i Rydychen i astudio ar gyfer diploma mewn ieithyddiaeth gymharol a'r ieithoedd Germanaidd a Cheltaidd, a thra oedd yno ysgrifennodd erthygl Gymraeg ar lenyddiaeth Manaw a ymddangosodd yn Y Traethodydd yn 1951. Manaweg fyddai ei hoff bwnc wedyn ac aeth i Brifysgol Glasgow i ddyfnhau ei wybodaeth o'r iaith honno ac yn wir o'r holl ieithoedd Celtaidd. Pan ddygwelodd i Leeds yn ddarlithydd, cafodd gyfle i gynnig cyrsiau israddedig mewn Cymraeg Canol yn yr adran Saesneg a chwrs Diploma Olraddedig ac MA mewn astudiaethau Celtaidd, yn ogystal â pharhau ei ddiddordeb mewn Hen Saesneg. Cydnabyddwyd ei safle pan ddyrchafwyd ef yn Ddarllenydd mewn Celteg ac yn Oruchwyliwr Astudiaethau Celtaidd yn Sefydliad Astudiaethau Canoloesol y brifysgol.

Yr oedd Bob Thomson yn ŵr tawel a diymhongar ac yn ysgolhaig Celtaidd cyflawn a disglair. Cydnabyddiaeth o hynny oedd iddo gael ei wahodd i draddodi darlithiau O'Donnell mewn dwy brifysgol a darlith Syr John Rhys yr Academi Brydeinig. Gwnaeth lawer o waith ar Fanaweg ac yr oedd wrthi'n paratoi gramadeg hanesyddol o'r iaith honno, ond yr oedd ei gyhoeddiadau'n cwmpasu'r holl ieithoedd Celtaidd. Cyhoeddodd yn helaeth ar yr Wyddeleg a Gaeleg yr Alban a siaradai ac ysgrifennai Gymraeg yn rhugl. Ef a gyhoeddodd y gyfrol gyntaf yng nghyfes testunau Cymraeg Sefydliad Uwchfrydiau Dulyn, sef ei olygiad o Pwyll Pendefig Dyfed yn 1957, ac yn ddiweddarach cyhoeddodd olygiadau o Iarlles y Ffynnon yn 1968 ac o Geraint fab Erbin yn yr un gyfres yn 1997 gan ddatrys llawer o'r problemau testunol sydd ynghlwm wrth y chwedlau hynny. Ganddo ef hefyd y cafwyd un o'r dehongliadau mwyaf diddorol o'r 'hwiangerdd' sydd yn Llyfr Aneirin. Ymdeolodd i Ynys Manaw lle y daliodd ati i weithio ar ei ramadeg hanesyddol ond lle y bu hefyd yn weinidog ordeiniedig gydag eglwys yr URC. Annisgwyl o addas oedd y pennawd 'in memoriam' ar ysgrif Bill Linnard gan i Bob Thomson, yr un a lwyddodd i wireddu i raddau helaeth ddyheadau'r hen Gymdeithas a'i chylchgrawn, farw ar 13 Hydref 2006.

Ond un ôl-nodyn gobeithiol. Mae'r ymrwymiad i astudiaethau Celtaidd yn dal yn Leeds a mynegwyd y gobaith yn ddiweddar y gellid ailsefydlu'r Gymdeithas a'r cylchgrawn. Tybed?

BRYNLEY F. ROBERTS

GWASG GREGYNOG

ELUSEN GOFRESTREDIG/REGISTERED CHARITY 1090060

Y LLYFR NESAF

*Pennant and his Welsh
Landscapes*

DETHOLIAD o ysgrifau'r teithiwr enwog Thomas Pennant wedi eu golygu gan Gwyn Walters a'u darlunio mewn lliw gyda thorluniau ar bren gan Rigby Graham. Dyma *magnum opus* y Wasg ar ei hail-sefydliad. Argraffiad cyfyngedig i 150 copi mewn chwarter lledr. 168 tudalen, 240x360mm. £550

ELUSEN

Mae Gwasg Gregynog yn Elusen Gofrestredig ers 2002. Uchelgais y Wasg yw cynnal a chadw, yng Nghymru, amgueddfa fyw ar gyfer celfyddydau'r llyfr. I lwyddo yn ei thasg, mae gofyn di-baid i'r Wasg godi arian i hyfforddi cenedlaethau'r dyfodol yn y crefftiau traddodiadol o deipog-raffwaith, argraffu a rhwymo.

*Mae ffurflenni anrhegu ar gael
oddi wrth y Rheolwr.*

AR Y GWEILL

(Manylion pellach i ddod)

Christopher Meredith
*The Story of The Afanc King
and the Sons of Teyrnnon*

Stori fer yn null Cangen Gyntaf y Mabinogi. Wedi ei ddarlunio gan Sara Philpott.

Wilfred Owen

Mapping Golgotha

Cerddi a llythyrau wedi eu golygu gan Jeremy Hooker a'u darlunio gan Harry Brockway.

AM RESTR GYFLAWN O GYHOEDDIADAU, GYSYLLTWCH Â

Gwasg Gregynog, Y Drenewydd/Newtown, Powys SY16 3PW

FFÔN 01686 650625 FFACS 01686 651010 E-BOST gwasg_gregynog@btconnect.com

NEU GWYLIWCH EIN GWEFAN:

www.gregynogpress.co.uk